

Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	17/05/2017	Amser Time	4.00 pm

**Present:**

Cynrychiolaeth o'r Sector Menter:		
Mari Faulkener	(MF)	Sector Lletygarwch
Nigel Peacock	(NP)	Hunan gyflogedig
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwrfoddol/Cymunedol		
Neville Evans	(NE)	Bryngwran cymunedol
Dewi Jones	(DJ)	Menter Gymdeithasol Llangefni
Edna Jones	(EJ)	Ffermwyr Ifanc
Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Molly Lovatt	(ML)	CNC
Dewi Lloyd	(DL)	Datblygu Economaidd CSYM
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JaD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Jackie Lewis	(JL)	
Staff Cyngor Sir Ynys Môn		
Eifion Jones	(ELJ)	
Llywodraeth Cymru		
Buddug Turner	(BT)	

Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	<b>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Buddug Turner, a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r bartneriaeth.</b>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
Isle of Anglesey  
Charitable Trust



2	<p>Cafwyd <b>ymddiheuriadau</b> oddi wrth yr aelodau canlynol.</p> <p>Alison Hughes Bryn Jones Jean Baker Sian Purcell Mark Gahn Eryl Williams Robin Grove-White Dr Trefor W Jones</p> <p>Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad y bartneriaeth â Dr Trefor Jones ar farwolaeth ei dad yn ddiweddar.</p> <p>Roedd Dr Dylan Evans wedi cadarnhau y byddai'n mynychu ond anfonodd e-bost ychydig cyn y cyfarfod, yn ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol ar y funud olaf, ond yn cadarnhau cefnogaeth i'r tri chynnig prosiect</p>	
3	<p><b>Datganiad o ddiddordeb</b> Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod.</p>	
4	<p><b>Cofnodion cyfarfod 8/3/17</b> Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir Cynigydd: Dewi Lloyd Eilydd: Molly Lovatt</p>	
5	<p><b>Materion yn codi.</b> Roedd yr Aelodau wedi ymateb i'r cais i gadarnhau cymeradwyaeth y cyfarfod o'r prosiectau. Roedd yr holl ymatebwyr yn hapus i gefnogi'r prosiectau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu'r gost i dalu TAW £1,600</li> <li>• Cyllid i ddigwyddad eglwysi gwag £1,150</li> <li>• Cyllid ychwanegol i 'Môn Made' £3,300</li> <li>• Cyllid cyn-cais Thema 2 £5,000</li> <li>• Croeso Cymraeg £8,750</li> </ul> <p>Mynegodd rhai aelodau bryderon ynghylch y Prosiect Cerbydau Trydan. O ystyried hyn, bydd y prosiect yn cael ei ailystyried a'i gyflwyno eto mewn cyfarfod diweddarach o'r GGLI.</p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
Charitable Trust



6	<p><b>Adroddiad Cynnydd</b></p> <p>Rhoddodd ELJ grynodedb o gynnwys y ddau adroddiad cynnydd a ddsbarthwyd gan nodi fod gwariant gwirioneddol yn dod yn nes at y gwariant proffil. Esboniodd DG fod arian cyfatebol wedi ei dderbyn gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am dair blynedd gyntaf y rhaglen a'i fod yn mewn trafodaethau gyda swyddogion ynghylch gweddill y rhaglen. Er bod yr ymateb hyd yma wedi bod yn gadarnhaol, mae rheolau'r Ymddiriedolaeth wedi newid yn y cyfnod interim ac efallai na fydd arian ychwanegol ar gael. O ragweld hyn, mae prosiectau yn cael eu datblygu erbyn hyn sy'n cynnwys elfen o arian cyfatebol.</p>	
7	<p><b>Adborth prosiect</b></p> <p>Dangoswyd ffilmiau byr ar y prosiectau canlynol:</p> <p>Byw a Bod Digidol Byw a Bod Perfformiad Grŵp Tyfwyr Edrych ar y Sêr Amgueddfeydd Dro Dro (Pop up)</p> <p>Caiff y rhain eu postio ar y wefan pan fo'n weithredol.</p> <p>Dyweddodd yr aelodau mai dim ond un ferch oedd rhan o'r prosiect Byw a Bod Digidol, ond eglurwyd mai hi oedd yr unig un a oedd wedi ymgeisio. Dywedodd yr Aelodau fod nifer o'r cyfranogwyr yn y prosiect Byw a Bod Perfformiad yn "elît Cymraeg" ac roeddent eisoes yn berfformwyr adnabyddus, rhai yn enillwyr Eisteddfod Genedlaethol. Codwyd y cwestiwn o sut i ymgysylltu â "Chymry dosbarth gweithiol". Bu hon yn broblem i Theatr Ieuencid Môn ers ei sefydlu, er bod ffioedd yn cael eu cadw'n isel, gallant barhau i fod yn rhy uchel i rai teuluoedd.</p>	
	<p><b>Cynigion Prosiect</b></p> <p><b>Thema 1</b></p> <p><b><u>Pasbort i Ynys Môn (£18,000)</u></b></p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
Charitable Trust



	<p>Cyflwynodd JL y prosiect sydd wedi'i anelu at hyrwyddo'r Ynys yn benodol i ymwelwyr dydd ar y rhagdybiaeth y gallai fod lleihad mewn capasiti llety i ymwelwyr os yw gweithredwyr yn dewis gosod eiddo i gontractwyr sy'n dod i weithio ar safle Wylfa Newydd, er enghraifft.</p> <p>Roedd Dewi Jones wedi awgrymu'r posibilrwydd o gael "Croeso i Ynys Môn" ar ffonau symudol wrth groesi'r bont.</p> <p>Dywedodd ML fod Cymdeithas Twristiaeth Môn yn cynhyrchu map o aelodau ac y byddent yn hapus i gydweithredu. Awgrymwyd hefyd y dylid cysylltu â'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan ac Atyniadau Ynys Môn gyda'r bwriad o gydweithredu.</p> <p>Nodwyd bod PDF bwyd a diod yn cael ei chynhyrchu ar Ynys Manaw. Mae hon yn dechnoleg gymharol isel ac yn hawdd ei diweddarau.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar y dull o weithredu'r "pasbort" gyda nifer o ddulliau posibl yn cael eu rhoi gerbron. Byddai hyn yn cael ei gynnwys yng nghylch gorchwyl y prosiect.</p> <p><b>Cymeradwywyd y cynnig yn unfrydol.</b></p> <p><b><u>Amgueddfa'r Bobl – rhannu atgofion (£18,000)</u></b></p> <p>Esboniodd JL fod hwn yn brosiect a oedd yn dilyn o'r prosiect Amgueddfa Dros Dro llwyddiannus, ac y byddai'n gweithio gydag Oriel Môn a'r Archifau. Byddai'n cynnwys diwrnodau agored lle byddai perchnogion yn cael eu recordio gyda'u heiddo a'u rhoi mewn cyswllt ag amgueddfeydd lleol; yn cael cyngor ar gadw arteffactau; sioeau teithiol e.e. i ysgolion er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc; ac ymchwil i mewn i adeiladau segur posibl a allai fod yn amgueddfeydd ychwanegol.</p> <p>Mynegwyd pryderon ynglŷn â materion yswiriant/ atebolrwydd e.e. eitemau drud, cyngor gwael, a holodd DL sut y gellid parhau ar ôl i'r cyllid arweiniol orffen.</p> <p><b>Cymeradwywyd y cynnig yn unfrydol.</b></p> <p><b>Thema 4</b> <b>Pencampwyr Ynni (£7,325)</b></p>	
--	---	--



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
Charitable Trust



	<p>Byddai'r prosiect hwn yn darparu hyfforddiant i bencampwyr ynni cyhoeddus a chymunedol, a fyddai yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysbrydoli newid ymddygiadol ymhlith unigolion yn y gweithle</li> <li>• Cynorthwyo i leihau lefelau tlodi tanwydd yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru</li> <li>• Amlygu meysydd i'w gwella ar draws prosesau gweithio i leihau effeithiau ynni</li> <li>• Gwella dealltwriaeth ymhlith yr holl staff ynghylch defnyddio ynni, newid yn yr hinsawdd a materion amgylcheddol yn gyffredinol.</li> </ul> <p>Gwnaed sylwadau ynghylch sut y byddai effaith y prosiect yn cael ei fesur e.e. gwariant cyfredol vs. gwariant y dyfodol, agwedd, newid ymddygiadol.</p> <p>Nododd BT fod GGLI arall yn dangos diddordeb mewn prosiectau ynni ac anogodd rannu'r canlyniadau pan fônt ar gael.</p> <p><b>Cymeradwywyd y cynnig yn unfrydol.</b></p>	
8	<p><b>Diweddariad Llywodraeth Cymru.</b></p> <p>Tynnodd BT sylw at y Cyfeiriadur Prosiect sydd bellach yn cynnwys dros 200 o brosiectau LEADER cyfredol ac sy'n adnodd defnyddiol ar brosiectau mewn meysydd eraill. Mae hwn i'w weld ar Wefan Llywodraeth Cymru.</p> <p><a href="http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/local-action-groups/?skip=1&amp;lang=cy">http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/local-action-groups/?skip=1&amp;lang=cy</a></p> <p>Ceir gwybodaeth hefyd drwy newyddlen Rhwydwaith Gwledig Cymru.</p> <p>Tynnodd sylw hefyd at gynlluniau eraill a oedd ar agor:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Buddsoddi Busnesau Bwyd – 19eg Medi</li> <li>• Cynllun Buddsoddi Busnes Gwledig - Bwyd 1af Tachwedd</li> <li>• Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – 12fed Hydref</li> <li>• Cydweithrediad a Datblygu Cadwyn Gyflenwi - 20fed Rhagfyr</li> <li>• Grant Busnes Fferm 29ain Medi</li> <li>• Glastir Uwch 2019 20fed Hydref</li> </ul>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
Charitable Trust



	<p>Yn genedlaethol, derbyniodd 31 o brosiectau y golau gwyrdd i gyflwyno cais llawn ar gyfer 4<sup>ydd</sup> rownd RCDF ond hyd yma dim ond 3 a dderbyniwyd. Mae hyn yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth yn ei gadael tan y funud olaf cyn ei gyflwyno. Mae cyflwyniad cynnar yn caniatáu i staff LIC ddechrau prosesu, ac felly'n hwyluso eu llwyth gwaith.</p> <p>Trefnwyd cyfarfod gyda swyddogion GGLI ym mis Hydref i adolygu'r Strategaeth Datblygu Lleol.</p> <p>Mae Cynhadledd y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol yn cael ei chynnal ym Melffast ar 14eg a 15fed Tachwedd.</p> <p>Ni dderbyniwyd hawliad o Ynys Môn ond eglurwyd bod hyn oherwydd na fyddai system LIC yn ei ganiatáu gan fod dyddiadau cychwyn a gorffen anghywir wedi'u gosod yn eu lle. Roedd Menter Môn wedi gwneud LIC yn ymwybodol i hyn, ac roeddent mewn trafodaethau i'w unioni.</p>	
9	<p><b>Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.</p>	
10	<p><b>Dyddiad y Cyfarfod nesaf</b></p> <p>31 Ionawr 2018</p>	
	<p><b>Gorffen</b></p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
Charitable Trust

